MOSTYN AGORED 21

TELERAU AC AMODAU YMGEISIO A CHYMRYD RHAN

Darllenwch y Telerau ac Amodau Ymgeisio a ganlyn.

TROSOLWG

Mae MOSTYN Agored 21 yn agored i artistiaid sy'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng. Nid oes cyfyngiadau o ran daearyddiaeth nac oedran.

Dyfernir **Gwobr Agored MOSTYN,** sy'n werth £10,000, ar y noson agoriadol, i artist unigol neu gydweithfa, yn unol â phenderfyniad y dewiswyr.

Dyfernir **Gwobr y Gynulleidfa,** sy'n werth £1000, i'r artist neu'r gydweithfa sy'n cael y swm uchaf o bleidleisiau gan y cyhoedd sy'n ymweld yn ystod yr arddangosfa.

Dyfernir y **Wobr Arddangos** am arddangosfa yn MOSTYN i'r artist neu'r gydweithfa y mae'r dewiswyr yn teimlo y byddent yn elwa fwyaf ar y pwynt hwn yn eu gyrfa.

Y BROSES GOFRESTRU A CHYFLWYNO

- I gyflwyno gwaith celf ar gyfer MOSTYN Agored 21, mae'n rhaid i bob artist gyflwyno eu cynigion ar-lein.
  Pan fyddwch chi'n cyflwyno eich gwybodaeth bersonol ar-lein, rydych chi hefyd yn cytuno y bydd eich data yn cael ei storio yn unol â Pholisi Preifatrwydd MOSTYN.
- Byddwch angen mynediad at gyfrifiadur a'r rhyngrwyd, cyfeiriad e-bost dilys a llun digidol o'ch gwaith celf/dolen at waith fideo/sain er mwyn cyflwyno.
- Derbynnir hyd at 6 darn o waith celf gan bob arlunydd mewn unrhyw gyfrwng.
- Mae ffi na ellir ei dychwelyd o £25 fesul artist.

Delweddau o'ch gwaith

- Rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein fel ffeiliau JPEG digidol yn unig. Rhaid i ddelweddau beidio â bod yn llai na 200KB (Cilobeit) a dim mwy na 5MB (megabeit).
- Rhaid i'r delweddau a gyflwynir fod o waith sydd ym meddiant yr artist ac ar gael ar gyfer yr arddangosfa.
- Bydd pob cynnig yn cael ei feirniadu ar sail eich delweddau yn unig. Gan hynny, mae'n bwysig iawn cyflwyno eich gwaith yn y ffordd orau bosibl. Peidiwch â chynnwys CV na gwybodaeth bersonol gan na fyddant yn cael ei chyflwyno i'r dewiswyr.
- Peidiwch â rhoi eich enw, teitl, gwefan, dyfrnodau na symbolau hawlfraint yn unrhyw le ar y delweddau eu hunain oni bai bod hyn yn rhan o'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno mewn gwirionedd.

Gwaith Fideo/Sain

- Dim ond fel dolen at wefan weinyddu neu lwyfan cynnal fideos fel You Tube neu Vimeo y gellir cyflwyno gwaith fideo/sain. At ddibenion dewis, rhaid i gyflwyniadau fod yn llai na 2 funud. Peidiwch â rhoi cyfrinair i ddiogelu dolenni fideo.

Y BROSES DDETHOL

- Dewisir yr arddangosfa gan banel dewis annibynnol a fydd yn dewis tua 30 i 40 o ddarnau gwaith celf. Bydd pob cyflwyniad a delwedd yn cael eu cyflwyno'n ddienw i'r panel dewis.
- Ni roddir data personol yn ystod y broses ddewis - dim ond y maint, y cyfrwng a'r teitl ynghyd â'r delweddau y byddwch chi'n eu cyflwyno fydd yn cael eu defnyddio.
- Oherwydd swm mawr y cynigion, ymddiheurwn ei bod yn amhosibl rhoi adborth unigol na beirniadaeth ar waith nas dewiswyd.

CYFLWYNO / CASGLU GWAITH A DDEFNYDDIR

Rhaid i'r gwaith a ddewisir gael ei gyflwyno a'i gasglu o MOSTYN. Bydd cyflwyno a chasglu yn digwydd ar y dyddiadau a bennir gan yr oriel.

Dyddiadau ar gyfer cyflwyno a chasglu gwaith

Mae'n ofynnol i artistiaid gyflwyno eu gwaith i MOSTYN rhwng 3 a 5 Gorffennaf

Ni fydd y gwaith a gyflwynir ar ôl 5 Gorffennaf yn cael ei gynnwys yn yr arddangosfa, oni bai fod hynny drwy drefniant ymlaen llaw gyda MOSTYN.

Mae'n rhaid i'r gwaith gael ei gasglu ar 31 Hydref neu 1 Tachwedd.

Nid oes gan MOSTYN lawer o le storio, felly un o'r amodau yw bod artistiaid ar gael i gyflwyno neu gasglu eu gwaith ar ddyddiadau wedi eu trefnu ymlaen llaw sydd wedi eu pennu gan yr oriel. Yn anffodus, ni allwn gadw gwaith heb ei gasglu ar ôl y dyddiad y cytunwyd arno.

Cludo gwaith

Rhaid cyflwyno'r holl waith yn uniongyrchol i MOSTYN. Ni fydd MOSTYN yn ymgymryd â chasglu gwaith o stiwdios, cartrefi, casgliadau neu orielau eraill. Ni all yr oriel dalu cost cludo gwaith i MOSTYN ac oddi yno. Mae'r artist yn gyfrifol am yr holl gostau cludo a chostau cysylltiedig i gludo'r gwaith i MOSTYN ac oddi yno.

Yswiriant

Bydd MOSTYN yn yswirio gwaith a ddewiswyd ar gyfer arddangosfa o'r adeg y bydd yn cael ei drosglwyddo yn unig. Bydd pob hawliad yswiriant, sut bynnag y bydd hynny'n codi, yn amodol ar ordal o £500. Ni all MOSTYN fod yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yn ystod cludiant. Mae MOSTYN yn cadw'r hawl i beidio â dangos gwaith sydd wedi ei ddifrodi yn ystod cludiant.

Gwerthu gwaith

Bydd comisiwn MOSTYN ar unrhyw werthiant yn 35% yn cynnwys TAW. Os yw eich gwaith ar werth, sicrhewch fod y pris gwerthu rydych chi'n ei nodi yn CYNNWYS y 35% hwn.

Gosod, teithio a chostau cysylltiedig

Staff MOSTYN fydd yn gosod gwaith, oni bai fod yr oriel yn cytuno bod angen i'r artist osod y gwaith ei hunan. Bydd penderfyniad yr oriel mewn achosion o'r fath yn derfynol. Ni all MOSTYN gyfrannu at gostau teithio artist nac unrhyw gost arall i osod gwaith sy'n benodol i'r safle.

Dyddiadau allweddol ar gyfer Arddangosfa MOSTYN Open 21:

Cyflwyniadau ar-lein yn agor 22 Ionawr 2019

Dyddiad cau cyflwyniadau ar-lein	4 Mawrth 2019
Dyddiadau cyflwyno	27 a 28 Mawrth 2019
Hysbysiad drwy e-bost	30 Mawrth 2019
Danfon gwaith a ddewiswyd	3 - 5 Gorffennaf 2019
Dyddiadau'r Arddangosfa	13 Gorffennaf - 27 Hydref 2019
Cyhoeddi enillydd gwobr MOSTYN Agored a'r Wobr Arddangos	13 Gorffennaf 2019
Cyhoeddi Gwobr y Gynulleidfa	21 Hydref 2019
Casglu gwaith	31 Hydref – 1 Tachwedd 2019